| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **HYDREF 10 2013** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYMERADWYO'R RHAGLEN, GAN YCHWANEGU YN ÔL YR ANGEN** |

## 1. Cefndir

1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Fehefin 27, trafodwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor dros y misoedd nesaf. Gweler isod raglen ddrafft a gytunwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

1.2. Yn amlwg, bydd mwy o eitemau'n codi o gyfarfod i gyfarfod, ac felly amlinelliad sylfaenol a nodir isod.

## 2. Rhaglen Ddrafft 2013-2014

| 10/10/13 | 15/01/14 | 04/04/14 | Mehefin 14 |
|---|---|---|---|
| * Ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Monitro<br><br>* Cynllunio a'r Iaith Gymraeg<br><br>* Cwynion | * Diweddariad ar Safonau iaith (os yn amserol)<br><br>* Cyflwyniad Adrannol-Adnoddau Dynol (hyrwyddo defnydd o'r iaith)<br><br>* Cyflwyniad gan Hunaniaith<br><br>* Cwynion | * Diweddariad Pencampwyr Iaith a defnydd o'r iaith yng Nghanolfannau Hamdden Bangor, Tywyn a Dolgellau (Cyflwyniad Adrannol?)<br><br>* Canolfannau Iaith<br><br>* Cwynion | * Adroddiad Monitro Blynyddol<br><br>* Cyflwyniad Adrannol-Rheoleiddio<br><br>* 3ydd parti sy'n defnyddio asedau'r Cyngor<br><br>* Cwynion |

## 3. Blaenoriaethau'r Rhaglen Waith

3.1. Rhoddir blaenoriaeth i unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud a sefydlu'r Safonau Iaith ac ymateb y Cyngor i'r gofynion

3.2. Byddwn yn adrodd yn flynyddol i'r Comisiynydd ar ein cydymffurfiaeth, ac yn trafod unrhyw adborth gan swyddfa'r Comisiynydd. Ar hyn o bryd, golyga hyn gynhyrchu Adroddiad

Monitro cyn diwedd mid Mehefin a thrafod sylwadau'r Comisiynydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

3.3. Yn unol â'r gofynion monitro, byddwn yn cyflwyno'r cwynion ynglŷn â methu cydymffurfio a'r Cynllun Iaith (a maes o law, y Safonau) ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith.

3.4. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn derbyn adroddiad gan bob Adran yn eu tro ar sut y maent yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth.

3.5. Yn amlwg, bydd y Pwyllgor yn gallu ychwanegu materion newydd ar gyfer y Rhaglen Waith ar unrhyw adeg.

## 4. Argymhelliad

4.1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith, gan ychwanegu'n ôl yr angen.